## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mercher 16eg Rhagfyr 2009 am 09:30am.

### PRESENNOL

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain Jones, W L Cowie, J A Davies, M J Eckersley, G C Evans, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, H Ll Jones, L M Morris, P W Owen, D Owens, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Cynllunio Datblygiad, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau) Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd) ynghyd â Sean Awbrey (Rheoli Llygredd) am ran o'r cyfarfod.

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr A Pennington, N Hughes, G Kensler, I Gunning, J Davies, P Duffy, P Dobb, E R Jones.

### 594 MATERION BRYS

**EITEM GWYBODAETH (cylchredwyd)**
**FFERM WYNT ARFAETHEDIG FFOREST CLOCAENOG**

Cylchredwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd i hysbysu'r aelodau am ddatblygiadau yn ymwneud â'r cais am fferm wynt arfaethedig yn Fforest Clocaenog.

Hysbyswyd yr Aelodau y bydd y cais hwn yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ar ôl 1af Mawrth 2010 ac nid i'r Awdurdod Lleol. Bydd y Pwyllgor yn cael ei hysbysu o'r hyn sy'n digwydd.

***PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.***

### 595 CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***RPENDERFYNWYD** bod:-*

*(a) Argymhellion y Swyddogion, fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad yn ôl yr achos, yn cael ei roi fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995, Deddf Iawndal a Chynllunio, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 yn achos y datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn atebol i'r amodau a restrir yn yr atodiad a gyflwynir yma:-*

(i) Caniatâd

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2009/1483/TC | Yn dilyn ystyriaeth i 1 llythyr sylwadau gan y Grŵp Cynghorol Bywyd Gwyllt Fforestydd (dim gwrthwynebiad)<br>Torri coeden - 1 criafolen<br>**44 Stryd y Dyffryn, Dinbych**<br>**CANIATÂD** |

(ii) Gwrthodiadau

| Rhif Cais | Disgrifiad a Safle |
|---|---|
| 23/2009/1368/PS | Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol ac aeth allan o’r Siambr yn ystod yr ystyriaeth a chymerwyd y gadair gan y Cynghorydd R Bartley<br>Amrywiad ar amod rhif 3 y cod caniatâd rhif 23/2004/0749/PF i ganiatáu preswyliad 12 mis mewn carafanau sefydlog i ddibenion gwyliau<br>**Parc Carafanau Llwyn Afon Llanrhaeadr Dinbych**<br>**GWRTHOD**<br>Cymerwyd y penderfyniad, sy’n GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:<br>Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai’r amrywiad ar yr amod a gynigiwyd i bob pwrpas yn rhoi caniatâd drwy gydol y flwyddyn i ddeunydd preswyl carafanau mewn lleoliad mewn cefn gwlad agored, ac yn rhoi pwysau annerbyniol ar wasanaethau ac adnoddau lleol, yn groes i egwyddorion sylfaenol cynllunio datblygiad cynaliadwy, fel y caiff ei amlinellu ym mholisi STRAT 1 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a Pholisi Cynllunio: Cymru |
| 45/2009/1230/PC | Parhau i ddefnyddio lle a fyddai gynt yn gaffi yn fflat breswyl hunangynhaliol (Cais adolygol)<br>**Caffi ‘Take A Break’ gynt 3 Stryd Kinmel, Y Rhyl**<br>**Gwrthod** |
| 45/2009/1301/PF | **SIARADWR YN ERBYN NATASHA BARKER**<br>Codi ffrâm ddur sadio yng nghefn tŷ rhif 10, pympiau gwres o’r awyr<br>**65 Rhodfa’r Gorllewin y Rhyl**<br>**GWRTHOD**<br>Cymerwyd y penderfyniad, sy’n GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:<br>Ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, ni chafwyd digon o wybodaeth i asesu’n llawn a all y pympiau ffynhonnell awyr weithredu o fewn i lefelau sŵn derbyniol cyn agosed i unedau preswyl, ac a fyddai dirywiad afresymol i amwynderau preswyl y trigolion, yn groes i Bolisi GEN 6 (v) gynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. |
| 46/2009/0932/PF | **SIARADWR YN ERBYN MR PETER REID**<br>**SIARADWR O BLAID DAVID MIDDLETON**<br>Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol ac aeth allan o’r Siambr yn ystod yr ystyriaeth a chymerwyd y gadair gan y Cynghorydd R Bartley<br>Ystyriwyd nodiadau am ymweliad safle a gynhaliwyd ar 12/12/09 am 8:30am a llythyrau yn cynnwys sylwadau ychwanegol oddi wrth Mr E Rees, Bryn, Llanelwy a oedd wedi eu harwyddo gan 12 person<br>Newid deunydd tir drwy osod 21 o garafanau gwyliau wedi eu gorchuddio â phren a gweithiau cysylltiedig.<br>**Tir y tu ôl i The Croft a adwaenir fel Clwyd Lofts Ffordd Uchaf Dinbych, Llanelwy**<br>**GWRTHOD**<br>Cymerwyd y penderfyniad, sy’n GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:<br><br>Ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, byddai datblygiad y *lodge* gwyliau yn cael effaith annerbyniol ar y tirlun a’r amwynder gweledol |

yn y lleoliad hwn o fewn i Ardal Tirlun Lleol ar ffiniau dinas hanesyddol Llanelwy, yn groes bolisïau strategol a manwl Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych (yn arbennig STRAT 1, 6, 7; ENV 2 a 3, TSM 9 a GEN 6), Canllaw Cynllunio Atodol Nodyn 20 - Datblygiad Carafanau Sefydlog a Chalets, a chanllawiau ym Mholisi Cynllunio: Cymru.

Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at symudiadau ychwanegol o gerbydau a cherddwyr yn agos at eiddo preswyl ger y mynediad i Ffordd Uchaf Dinbych, a byddai'n cynhyrchu lefelau annerbyniol o aflonyddwch a fyddai'n cael effaith andwyol ar amwynderau'r trigolion, yn groes i Bolisïau STRAT 5, STRAT 7 a STRAT 9 a GEN 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

(iii) Eitem Gorfodaeth

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| ENF/2009/00060 | Newid deunydd Caffi i ddeunydd preswyl<br>**Caffi 'Take A Break' gynt 3 Stryd Kinmel Y Rhyl**<br>***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi rhoi Rhybudd Gorfodaeth o dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad & Thref 1990, gyda chyfnod cydymffurfio o 6 mis, sy'n mynnu:-* |
| *(i)* | *Rhoi diwedd ar ddeunydd preswyl anawdurdodedig y caffi A3 gynt* |
| *(ii)* | *Rhoi cychwyn ar ddwyn achos i erlyn unrhyw berson sydd wedi derbyn y Rhybudd ac sydd heb neu sy'n gwrthod cydymffurfio â darpariaethau'r Rhybudd.* |

Terfynwyd y cyfarfod am 11:15am.

************